**Eitem Agenda Rhif:**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **DYDDIAD:** | **22 Chwefror 2013** |
| **PWNC:** | **Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Cyflwyno adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau gyda manylion yr hyfforddiant y bwriedir ei ddarparu i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion.

## 2. CEFNDIR

Mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi pwysleisio'r manteision o ddarparu hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion, fel rhan o batrwm cyffredinol o godi safonau moesegol ymysg aelodau etholedig. Bydd sgiliau Cadeirio da hefyd yn cyfrannu at gymryd penderfyniadau yn effeithiol ac yn gyfreithiol sy'n amlwg o fudd i ddemocratiaeth leol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion yr hyfforddiant i'r aelodau. Mae'n cael ei ddarparu gan hyfforddwr allanol sydd wedi'i argymell i'r Cyngor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae manylion yr agenda ynghlwm fel Atodiad 1.

Bwriedir cynnal yr hyfforddiant ar 16 Mai 2013 ac ysgrifennwyd at holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned i gael enwau'r rhai a fydd yn bresennol. Oherwydd y gost i'r Cyngor, codir ffi o £30 y pen i dalu'r costau hynny. Disgwylir y bydd llawer o ofyn am le a'r bwriad yw cyfyngu lleoedd i ddau o bob Cyngor, sef y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion, presennol neu ddarpar.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Fod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 Fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn yr hyfforddiant.